# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys,

Practis Deintyddol Cloverly

25 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i fodloni anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-3861-3
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 7
    - Profiad y Claf ........ 7
    - Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 9
    - Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 12
    - Ansawdd yr Amgylchedd ........ 15
6. Y Camau Nesaf ........ 17
    - Atodiad A ........ 18

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Cloverly, 35 Heol y Garth, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3AR, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, ar 25 Mawrth 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi safonau iechyd a gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn archwilio pa mor dda y mae practisau'n bodloni’r safonau a geir yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well[1]. Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi’i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat, hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011[3]. Lle bod hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill ar gyfer y tîm, fel safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safonau-ar-gyfer-gwasanaethau-iechyd-cym

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a’r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o’n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferwyd yn y sefydliad yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Cloverly yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanfair-ym-Muallt, Powys. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, dwy nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd. Mae'r practis yn darparu triniaeth ddeintyddol y GIG ar gyfer plant, ond mae'n darparu gofal deintyddol preifat yn unig ar gyfer oedolion.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Selio agennau
- Rhywfaint o ddeintyddiaeth gosmetig
- Gwynnu dannedd
- Gorchudd dannedd
- Triniaeth ataliol a thriniaeth beriodontol.

Mae Practis Deintyddol Cloverly yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn bennaf. Felly, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn archwilio sut roedd Practis Deintyddol Cloverly yn bodloni'r safonau gofal yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Un canfyddiad cyffredinol a gafwyd yn yr arolygiad hwn, ac un sy'n perthyn i bob un o benawdau ein hadroddiad, yw'r polisïau gwael ac annigonol a welsom. Roedd yr holl bolisïau ysgrifenedig ar gael wedi cael eu hargraffu o wefan, ond nid oeddent wedi cael eu personoli ar gyfer Cloverly. Mae'n rhaid i'r practis fynd i'r afael â hyn a sicrhau bod pob polisi yn berthnasol ac wedi'i phersonoli. Lle y gwelsom fylchau o ran ansawdd a safonau, gellid priodoli'r rhain i ddiffyg dull o weithredu wedi'i ffurfioli ac eglurdeb disgwyliadau, a fyddai fel arfer yn cael eu cyfleu i staff trwy bolisïau cynhaliol.

<u>Profiad y Claf</u>

Ar y cyfan, dangosodd adborth ein holiaduron fod cleifion yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir gan Bractis Deintyddol Cloverly; roedd rhai ymatebwyr wedi bod yn cleifion ers hyd at 30 mlynedd.

Fodd bynnag, gwelsom nifer o ddiffygion ynglŷn â'r hyn rydym yn eu disgwyl yn y maes hwn. Yn benodol: roedd diffyg gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â'r gwasanaeth; roedd diffyg gwybodaeth ar gael i gleifion er mwyn hyrwyddo iechyd geneuol da; roedd diffyg tystiolaeth bod y cleifion yn derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â risgiau a manteision y driniaeth roeddent yn ei derbyn.

<u>Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru</u>

Ar y cyfan, gwelsom fod diffyg manylder wedi eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod lefel resymol o gofnodi ac roeddem yn teimlo y gellid gwella hyn yn hawdd iawn. Rydym wedi argymell gwelliannau er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Gwelsom fod yr ystafell ddadheintio yn y practis yn helaeth ac yn lân. Ystyriwyd bod y weithdrefn ddadheintio a esboniwyd inni o safon dda. Nid oedd y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau dadheintio neu reoli heintiau, er mwyn monitro ei safonau ei hun, ac rydym wedi argymell ei fod yn mynd i'r afael â hyn.

Roedd gan y practis systemau diogel ar waith ar gyfer defnyddio a chynnal a chadw offer radiograffeg, ond roedd angen sicrhau ei fod yn archwilio safon y delweddau a gipiwyd. Yn ôl pobl golwg, nid oedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei hysbysu am yr offer radiograffig ar y safle chwaith ac mae'n rhaid unioni hyn.

<u>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</u>

Gwelodd AGIC dîm bach, cydlynol yn y practis, a oedd wedi gweithio gyda'i gilydd ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, ychydig yn unig o systemau a phrosesau oedd wedi'u ffurfioli er mwyn cefnogi'r rheolaeth, yr arweinyddiaeth, a rhedeg y practis yn gyffredinol. O ganlyniad i hyn, gwelsom ddiffygion ym mhob maes bron y gwnaethom edrych arno. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion, ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen gwelliannau sylweddol yn y maes hwn.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd adeilad ac amgylchedd y practis y lân ac yn addas i ddarparu gofal diogel i gleifion. Byddai codi arwyddion o help i gleifion er mwyn eu rhybuddio am y gris i lawr i'r tŷ bach, a dylid gwneud ymholiadau pellach i osod ramp er mwyn mynd i'r adeilad o'r tu allan.

Er bod contract ar gyfer cael gwared ar wastraff ar waith, gwelsom nad oedd yn ystyried pob categori o wastraff (domestig, glanweithiol, ailgylchu at ati) ac roedd angen ei adolygu er mwyn cynnwys popeth.

Roedd cyfleusterau ar gyfer staff ond nid oedd y rhain wedi'u trefnu'n dda, a gwelsom ddeunyddiau glanhau ar bwys bwyd – yn ogystal â gwifrau rhydd ac offer datblygu radiograffau.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, dangosodd adborth ein holiaduron fod cleifion yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir gan Bractis Deintyddol Cloverly.roedd rhai ymatebwyr wedi bod yn gleifion ers hyd at 30 mlynedd.**

**Fodd bynnag, gwelsom nifer o ddiffygion ynglŷn â'r hyn rydym yn ei ddisgwyl yn y maes hwn. Yn benodol, roedd diffyg gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â'r gwasanaeth;roedd diffyg gwybodaeth ar gael i gleifion er mwyn hyrwyddo iechyd geneuol da; roedd diffyg tystiolaeth bod y cleifion yn derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â risgiau a manteision y driniaeth roeddent yn ei derbyn.**

Ein prif ddull o gasglu barn y cleifion ar gyfer yr arolygiad hwn oedd trwy ddosbarthu holiaduron wedi'u hargraffu ymlaen llaw i gleifion cyn ein hymweliad arolygu. Cwblhawyd a dychwelwyd ugain ohonynt.

Dywedodd 100% o'r cleifion eu bod yn hapus â'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol hwn. Rhoddodd dros hanner o'r ymatebwyr ganiatâd inni i ddefnyddio unrhyw sylwadau ychwanegol y gwnaethant eu rhoi inni isod, ac rydym wedi cynnwys sampl o'r sylwadau a dderbyniwyd:

> *"Mae hwn yn bractis proffesiynol, caredig a pharod ei gymwynas"*
>
> *"Gwasanaeth gwych, da iawn ferched"*

Dywedodd cleifion wrthym hefyd nad oeddent wedi profi unrhyw oedi hir wrth aros am eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym nad oedd gan y practis unrhyw fecanweithiau ar gyfer casglu adborth cleifion, ac nid yw erioed wedi cynnal unrhyw arolygon neu holiaduron er mwyn gofyn am adborth cleifion. Gwnaethom argymell bod y practis yn rhoi system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd, er mwyn iddo gael mynediad at y ffynhonnell wybodaeth hon a allai fod yn werthfawr.

***Argymhelliad***

***Dylid rhoi system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion ar y gwasanaeth yn rheolaidd.***

Roedd yr ystafell aros yn lân ac yn daclus, fodd bynnag, dylid ystyried darparu mwy o wybodaeth am  hyrwyddo iechyd ar gyfer cleifion.

***Argymhelliad***

***Dylid cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael yn yr ystafell aros er mwyn hyrwyddo iechyd deintyddol da.***

Nid oedd rhestr o brisiau na gwybodaeth am yr ymarferwyr deintyddol sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos. Nid oedd taflen wybodaeth y practis yn rhoi unrhyw wybodaeth am brisiau, ar wahân i ddweud wrth gleifion am ofyn am fwy o wybodaeth.

***Argymhelliad***

***Dylid arddangos rhestr o brisiau cyfredol, a manylion y gweithwyr deintyddol proffesiynol ym mannau aros y practis.***

Ni welsom unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos a oedd yn hysbysu cleifion ynglŷn â sut i ddod o hyd i gyngor neu driniaeth y tu allan i oriau; Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod neges ar y peiriant ateb a oedd yn rhoi cyfarwyddyd. Roedd ymatebwyr yr holiaduron yn nodi eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau y tu allan i oriau. Rydym yn cynghori'r practis, fodd bynnag, i ystyried ychwanegu’r wybodaeth hon at yr hyn a arddangosir yn y practis yn y dyfodol er mwyn i gleifion ei ddarllen.

Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn y nodiadau y gwnaethom edrych arnynt, nac yn y wybodaeth safonol sydd ar gael i gleifion, a oedd yn dangos bod y practis yn ceisio sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu mor fuan â phosibl am y risgiau, y manteision a'r triniaethau amgen sydd ar gael. Roeddem yn  bryderus iawn am y mater hwn felly gwnaethom ohebu â'r practis ar wahân, er mwyn cael sicrwydd y bydd yn mynd i'r afael ag ef ar unwaith.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Ar y cyfan, gwelsom fod diffyg manylder wedi eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod lefel resymol o gofnodi ac roeddem yn teimlo y gellid gwella hyn yn hawdd iawn. Rydym wedi argymell gwelliannau er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.**

**Gwelsom fod yr ystafell ddadheintio yn y practis yn helaeth ac yn lân. Ystyriwyd bod y weithdrefn ddadheintio a esboniwyd inni o safon dda. Nid oedd y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau dadheintio neu reoli heintiau, er mwyn monitro ei safonau ei hun, ac rydym wedi argymell ei fod yn mynd i'r afael â’r mater hwn.**

**Roedd gan y practis systemau diogel ar waith ar gyfer defnyddio a chynnal a chadw offer radiograffeg, ond mae angen arno sicrhau ei fod yn archwilio safon y delweddau a gipwyd.Yn ôl pobl golwg, nid oedd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei hysbysu am yr offer radiograffig ar y safle chwaith ac mae'n rhaid unioni hyn.**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar dair set o gofnodion cleifion yn ystod yr arolygiad hwn. Gan mai un deintydd yn unig sydd yn y practis hwn, roeddent i gyd wedi cael eu cofnodi ganddi, ac nid oedd unrhyw ddeintyddion locwm wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar. Roedd holl gofnodion y practis wedi'u hysgrifennu â llaw, a dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer defnyddio system electronig.

Ar y cyfan, gwelsom nad oedd digon o fanylion wedi'u cofnodi. Yn benodol, gwelsom nad oedd y nodiadau'n rhoi unrhyw wybodaeth am gynllunio triniaeth ac opsiynau triniaeth amgen, ac nac oeddent wedi cofnodi a oedd y claf wedi rhoi cydsyniad deallus ar gyfer y driniaeth.

Roeddem yn bryderus iawn ynglŷn â'r canfyddiadau hyn felly gwnaethom ohebu â'r practis ar wahân er mwyn iddo fynd i'r afael â'r mater hwn ar unwaith. Ar ben hynny i gyd, mae'n bryder nad oedd systemau'r practis ei hun wedi'i alluogi i nodi'r mater hwn a mynd i'r afael ag ef.

***Argymhelliad***

***Dylid llunio set o safonau ar gyfer cadw cofnodion ar y lefel o fanylder a ddisgwylir ar gyfer pob ymweliad claf.***

Mae gan y practis un ystafell driniaeth ac mae'r offer deintyddol yn cael eu dadheintio mewn ystafell ar wahân wedi'i dodrefnu i'r pwrpas. Gwelsom fod system arwyddion clir ar waith, ac roedd gwaith cynnal a chadw'r ystafell i'w

weld yn arbennig o uchel. Roedd y practis wedi cynllunio gweithdrefn er mwyn cynnal y llif o eitemau budr yn yr ystafell er mwyn lleihau'r risg o unrhyw groes-heintio – fodd bynnag, roedd angen adolygu hyn er mwyn sicrhau bod pob cam yn cael ei gynnal yn y man cywir.

***Argymhelliad***

***Dylid adolygu’r llif ar gyfer prosesu offer deintyddol yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau bod y broses yn lleihau'r risg o groes-heintio cyn belled ag y bo modd.***

Nid oedd rhestr wirio neu dystiolaeth o system benodol ar gyfer sicrhau bod yr ystafell driniaeth yn lân ac wedi'i stocio o ddydd i ddydd.

***Argymhelliad***

***Mae angen i'r practis ddatblygu rhestr wirio ddyddiol er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn stocio a pharatoi'r ystafell driniaeth ar gyfer trin cleifion mewn modd diogel.***

Er bod y weithdrefn ddadheintio a esboniwyd inni, a'r ystafell a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer hyn, o safon uchel yn ôl pob golwg, nid oedd y practis yn cynnal unrhyw archwiliadau dadheintio neu reoli heintiau. Byddai'r rhain yn ei alluogi i gofnodi ei fod yn gweithio'n unol â safonau ac i nodi unrhyw fylchau.

***Argymhelliad***

***Dylid rhoi system o archwiliadau rheoli heintiau ar waith, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu dogfennu a'u hadolygu er mwyn nodi unrhyw dueddiadau a phroblemau.***

Er bod dogfennau ar waith a oedd yn dangos bod offer radiograffeg yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel o ddydd i ddydd, dylai practisau hysbysu’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a chofrestru ag ef, er mwyn iddo fod yn ymwybodol bod offer radiograffeg yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn yr adeilad. Nid oedd y deintydd yn gallu bod yn hyderus bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei hysbysu yn hyn o beth, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth yr un ffordd na'r llall.

***Argymhelliad***

***Dylid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bod offer radiograffeg yn cael eu defnyddio yn yr adeilad, a rhoi tystiolaeth i AGIC unwaith y gwneir hyn.***

Gwelsom fod polisi ymbelydredd ar gael, ond yn yr un ffordd â'r rhan fwyaf o’r polisïau eraill a welsom yn ystod yr arolygiad hwn, roedd wedi'i argraffu o wefan Denplan, ond nid oedd wedi'i bersonoli er mwyn iddo fod yn benodol ac yn berthnasol i Bractis Deintyddol Cloverly.

***Argymhelliad***

***Dylid addasu'r polisi ymbelydredd er mwyn iddo fod yn benodol i Bractis Deintyddol Cloverly.Unwaith y gwneir hyn, dylid ei lofnodi a nodi dyddiad ar gyfer ei adolygu.***

Nid oedd rheolau yn ymwneud â defnyddio offer radiograffeg wedi'u harddangos, ac fe wnaethom argymell y dylid gwneud hyn.

***Argymhelliad***

***Dylid arddangos y rheolau ar gyfer defnyddio offer radiograffeg mewn lle amlwg yn y practis.***

Pan oedd cleifion wedi cael sganiau pelydr-X, gwelsom yn y nodiadau bod angen gwelliannau i'r ffordd roedd y rhain y cael eu cofnodi. Nid oedd canfyddiadau clinigol y ddelwedd wedi'u nodi ar yr un o'r enghreifftiau a welsom. Nid oedd y cyfiawnhad dros y sgan wedi'i nodi'n ddigonol chwaith, ac roedd un enghraifft lle nad oedd wedi'i nodi o gwbl. Nid oedd system ar waith ar gyfer archwilio ansawdd y delweddau a gipiwyd, er mwyn i'r practis ei hun nodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â nhw.

***Argymhelliad***

***Dylid sefydlu system ar gyfer archwilio ansawdd y radiograffau a gipiwyd yn flynyddol, a sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi.***

Roedd gweithdrefn a oedd yn amlinellu'r camau y dylid eu cymryd pe bai argyfwng claf, a dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru – ond unwaith eto, roedd angen cryfhau'r polisi â manylion pellach sy'n benodol i Bractis Deintyddol Cloverly.

***Argymhelliad***

***Dylid gwella'r polisi dadebru ac argyfyngau, a sicrhau bod staff wedi cael eu hyfforddi ac yn ymwybodol o'r camau mae disgwyl iddynt eu cymryd.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelodd AGIC dîm bach, cydlynol yn y practis, a oedd wedi gweithio gyda'i gilydd ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, ychydig o systemau a phrosesau wedi'u ffurfioli oedd, er mwyn cefnogi'r rheolaeth, yr arweinyddiaeth a rhedeg y practis yn gyffredinol.O ganlyniad i hyn, gwelsom ddiffygion bron ym mhob maes y gwnaethom edrych arno. Ceir y manylion isod. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion, ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen gwelliannau sylweddol yn y maes hwn.**

Roedd y prif ddeintydd wedi bod yn y practis ers 1988 a hi oedd rheolwr y practis hefyd. Roedd y ddwy nyrs ddeintyddol a'r derbynnydd i gyd wedi gweithio yn y practis ers nifer o flynyddoedd, ac roedd trosiant staff yn eithriadol o isel. Yn ôl pob golwg, roedd y tîm yn hapus yn gweithio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, er bod eu holl systemau wedi'u hen sefydlu, nid oeddent wedi'u ffurfioli na'u cefnogi â pholisïau a gweithdrefnau.

Nid oedd ffeiliau staff a oedd yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi. Nid oedd manylion brechiadau ar gael ar gyfer pob aelod o staff ac nid oedd gan staff gontractau gwaith. Roeddem yn pryderu'n fawr iawn am y canfyddiad hwn, ond roddodd y deintydd sicrwydd inni ei bod wedi trefnu contract gyda chwmni adnoddau dynol, ac y byddai staff yn cwrdd â nhw er mwyn llunio contractau.

***Argymhelliad***

***Dylid creu a chynnal ffeiliau sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol gan gynnwys contractau a statws brechiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.***

Roedd staff yn cadw cofnod o'u hyfforddiant eu hunain, ac nid oedd cofnod canolog ar gyfer cofnodi'r staff a oedd wedi mynychu hyfforddiant a pha hyfforddiant yr oedd ei angen. Nid oedd y deintydd felly yn gallu rhoi sicrwydd inni fod hyfforddiant pob aelod o staff wedi'i ddiweddaru. Er iddi ddweud wrthym ei bod yn meddwl bod pob aelod o staff wedi diweddaru eu hyfforddiant, a chanmol staff am eu hagwedd gydwybodol yn hyn o beth, nid oedd ganddi unrhyw dystiolaeth a oedd yn dweud wrthym fod hyn yn wir.

***Argymhelliad***

***Dylid creu a chynnal cofnod hyfforddi sy'n dangos manylion pob aelod o staff, a sefyllfa gyfredol eu  hyfforddiant gorfodol, yn ogystal â hyfforddiant arall.***

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu trafod materion o ddydd i ddydd, ond weithiau roeddent yn cynnal cyfarfodydd staff mwy ffurfiol. Roedd amlinelliad byr o'r cyfarfodydd staff wedi'i nodi mewn llyfr, ond nid oedd tystiolaeth bod unrhyw ddysgu wedi digwydd o ganlyniad i'r rhain, ac nid oedd yn glir o'r lefel o fanylder a gofnodwyd pa fath o ddysgu fyddai wedi bod yn bosibl.

***Argymhelliad***

***Dylid cofnodi cyfarfodydd staff mewn mwy o fanylder er mwyn nodi cynnwys y trafodaethau, yn hytrach nag enw'r pwnc a drafodwyd yn unig.Dylid cofnodi tystiolaeth o ddysgu a chynllunio o ganlyniad i hyn hefyd.***

Er inni weld templed gwag y gellid bod wedi'i ddefnyddio ar gyfer arfarniadau staff, ar hyn o bryd nad oes system ar gyfer cynnal y rhain. Felly, mae'r cyfle mae arfarniadau'n ei roi ar gyfer adolygu a thrafod anghenion dysgu (ymhlith pethau eraill) wedi'i golli.

***Argymhelliad***

***Dylid cynnal a chofnodi arfarniadau staff blynyddol.Dylai trafodaethau gynnwys cynllunio datblygiad personol.***

Gwelsom gofnodion cynnal a chadw ar gyfer rhywfaint o'r offer a oedd yn cael ei ddefnyddio yn y practis; roedd y rhai a welsom wedi'u diweddaru. Fodd bynnag, nid oedd trefniadau wedi'u ffurfioli ar waith ar gyfer sicrhau bod offer trydanol yn cael eu gwasanaethu a'u profi yn unol ag amserlenni diogelwch.

***Argymhelliad***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo gofnod o'r holl offer, ynghyd â manylion ynglŷn â phryd mae'n rhaid gwasanaethu a phrofi pob eitem – dylid hysbysu AGIC am sut y bydd yn sicrhau y gwneir hyn.***

Nid oedd gweithdrefn gwyno ar waith, ac os oedd unrhyw gwynion neu bryderon wedi'u derbyn, nid oedd log neu gofnod ohonynt. Felly, nid oeddem yn gallu gweld tystiolaeth, pe bai claf wedi bod yn anhapus, bod camau digonol wedi'u cymryd, na chofnod o unrhyw dysgu perthnasol.

Dywedodd chwech o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Er bod cleifion eraill yn dweud eu bod yn gwybod, nid oeddent yn rhoi manylion o'r hyn y byddent ei wneud, ac roedd yn aneglur sut y byddai'r practis yn ymdrin ag unrhyw bryderon/cwynion, gan nad oedd ganddo bolisi a oedd yn nodi'r weithdrefn y dylid ei dilyn.

***Argymhelliad***

***Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu gweithdrefn gwyno yn unol â'r safonau perthnasol a'r cyrff cysylltiedig yng Nghymru.Mae'n rhaid i'r practis hefyd sichrau bod gweithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat yn cael ei chreu, gan sicrhau y cynhwysir manylion cyswllt AGIC – yn ogystal â chreu gweithdrefn gwyno ar gyfer cleifion deintyddol y GIG.***

***Unwaith mae wedi'i chreu, mae'n rhaid arddangos y weithdrefn yn y practis er mwyn i gleifion ei gweld, ac anfon copi at AGIC.***

***Argymhelliad***

***Mae'n rhaid creu cofnod o bryderon, cwynion a chanmoliaethau.Dylai'r ddogfen hon alluogi'r practis i nodi unrhyw anghenion dysgu o ganlyniad i broblemau a nodir.***

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg mewn perthynas â hyn yn yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd adeilad ac amgylchedd y practis y lân ac yn addas i ddarparu gofal diogel i gleifion. Byddai codi arwyddion o help i gleifion er mwyn eu rhybuddio am y gris i lawr i'r tŷ bach, a dylid gwneud ymholiadau pellach i gael ramp i mewn  i'r adeilad.**

**Er bod contract ar gyfer cael gwared ar wastraff ar waith, gwelsom nad oedd yn ystyried pob categori o wastraff (domestig, glanweithiol, ailgylchu at ati) ac roedd angen ei adolygu er mwyn cynnwys popeth.**

**Roedd cyfleusterau ar gyfer staff ond nid oedd y rhain wedi'u trefnu'n dda, a gwelsom ddeunyddiau glanhau ar bwys bwyd – yn ogystal â gwifrau rhydd ac offer datblygu radiograffau.**

Roedd safle'r practis i gyd ar y llawr daear. Roedd y drysau'n llydan a'r drws i'r ystafell driniaeth ei hun yn agor tuag allan. Er bod mynediad hygyrch y tu mewn, nid oedd ramp er mwyn mynd i’r  adeilad, ac roedd gris yn arwain i lawr i'r tŷ bach. Gwnaethom drafod y mater hwn â'r practis ac argymell ei fod yn gwneud ymholiadau pellach â'r awdurdod perthnasol ynglŷn â'r gofynion mewn perthynas â darparu ramp er mwyn mynd i'r adeilad. Byddai'n gall hefyd rhoi arwyddion sy'n rhybuddio cleifion am y gris i lawr i'r tŷ bach.

Mae'r practis yn cael ei redeg o dŷ tref wedi ei addasu ar gyrion canol tref Llanfair-ym-Muallt. Roedd ychydig o leoedd parcio yn syth y tu allan i'r adeilad, a rhywfaint o leoedd parcio yn y stryd y tu allan.

Yn fewnol, roedd pob man yn lân ac yn daclus yn ôl pob golwg. Roedd man ar gyfer staff, ond ni welwyd seddi na mannau storio diogel yma, ac roedd yn cynnwys cymysgedd o eiddo personol ac offer y practis  a wedi'u storio gyda'i gilydd. Roedd ystafell arall a oedd yn wag ar y cyfan, ar wahân i rai bocsys wedi'u storio. Byddai tacluso'r ddwy ystafell  hon a neilltuo pwrpas iddynt yn weddol hawdd, er mwyn creu mannau staff (gan gynnwys bwyd) sydd ar wahân i offer y practis a deunyddiau glanhau.

***Argymhelliad***

***Dylid ail-drefnu'r ddwy ystafell yng nghefn yr adeilad er mwyn creu man ar wahân ar gyfer staff, ac ystafell ar wahân ar gyfer storio offer y practis.***

Roedd contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff deintyddol, er inni argymell bod y deintydd yn gwneud ymchwil pellach i gael gwared ar gypswm yn ddiogel, gan inni weld bod y trefniadau cyfredol yn annigonol. Gwelsom

hefyd nad oedd trefniadau addas ar gyfer cael gwared ar wastraff cyffredinol, gwastraff glanweithiol ac ail-gylchu.

***Argymhelliad***

***Dylid adolygu'r contract ar gyfer cael gwared ar wastraff er mwyn cael gwared ar bob categori o wastraff mewn ffordd ddiogel, gywir ac addas.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad Cleifion, Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, Rheolaeth ac Arweinyddiaeth, ac Ansawdd yr Amgylchedd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Cloverly yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, fe gaiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Cloverly

## Dyddiad yr Arolygiad: 25 Mawrth 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Dylid rhoi system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion ar y gwasanaeth yn rheolaidd. | | | |
| 8 | Dylid cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael yn yr ystafell aros er mwyn hyrwyddo iechyd deintyddol da. | | | |
| 8 | Dylid arddangos rhestr o brisiau cyfredol, a manylion y gweithwyr deintyddol proffesiynol ym mannau aros y practis. | | | |
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 9 | Dylid llunio set o safonau ar gyfer cadw cofnodion ar y lefel o fanylder a ddisgwylir ar gyfer pob ymweliad claf. | | | |
| 10 | Dylid adolygu’r llif ar gyfer prosesu offer deintyddol yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau bod y broses yn lleihau'r risg o groes-heintio cyn belled ag y bo modd. | | | |
| 10 | Mae angen i'r practis datblygu rhestr wirio ddyddiol er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn stocio a pharatoi'r ystafell driniaeth ar gyfer trin cleifion mewn modd diogel. | | | |
| 10 | Dylid rhoi system o archwiliadau rheoli heintiau ar waith, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu dogfennu a'u hadolygu er mwyn nodi unrhyw deuddiadau a phroblemau. | | | |
| 10 | Dylid hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch bod offer radiograffeg yn cael eu defnyddio yn yr adeilad, a rhoi tystiolaeth i AGIC unwaith y gwneir hyn. | | | |
| 11 | Dylid addasu’r polisi ymbelydredd er mwyn iddo fod yn benodol ar gyfer Practis | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Deintyddol Cloverly. Unwaith y gwneir hyn, dylid ei lofnodi a nodi dyddiad ar gyfer ei adolygu. | | | |
| 11 | Dylid arddangos rheolau yn ymwneud â defnyddio offer radiograffeg mewn lle amlwg yn y practis. | | | |
| 11 | Dylid sefydlu system ar gyfer archwilio ansawdd y radiograffau a gipiwyd yn flynyddol, a sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi. | | | |
| 11 | Dylid gwella'r polisi dadebru ac argyfyngau, a sicrhau bod staff wedi cael eu hyfforddi ac yn ymwybodol o'r camau mae disgwyl iddynt eu cymryd. | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 12 | Dylid creu a chynnal ffeiliau sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol gan gynnwys contractau a statws brechiadau, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol. | | | |
| 12 | Dylid creu a chynnal cofnod hyfforddi sy'n dangos manylion pob aelod o staff, a sefyllfa gyfredol eu hyfforddiant gorfodol yn ogystal â | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | hyfforddiant arall. | | | |
| 13 | Dylid cofnodi cyfarfodydd staff mewn mwy o fanylder er mwyn nodi cynnwys y trafodaethau, yn hytrach nag enw'r pwnc a drafodwyd yn unig. Dylid cofnodi tystiolaeth o ddysgu a chynllunio o ganlyniad i hyn hefyd. | | | |
| 13 | Dylid cynnal a chofnodi arfarniadau staff blynyddol. Dylai trafodaethau gynnwys cynllunio datblygiad personol. | | | |
| 13 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo gofnod o'r holl offer, ynghyd â manylion yngl***ŷn â phryd mae'n rhaid gwasanaethu a phrofi pob eitem –*** dylid hysbysu AGIC am sut y bydd yn sicrhau y gwneir hyn. | | | |
| 14 | Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu gweithdrefn gwyno yn unol â'r safonau perthnasol a'r cyrff cysylltiedig yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r practis hefyd sichrau bod gweithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat yn cael ei chreu, gan sicrhau y cynhwysir manylion cyswllt AGIC, yn ogystal â chreu gweithdrefn gwyno ar gyfer cleifion deintyddol y GIG.<br>Unwaith mae wedi'i chreu, mae'n rhaid | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | arddangos y weithdrefn yn y practis er mwyn i gleifion ei gweld – ac anfon copi at AGIC. | | | |
| 14 | Mae'n rhaid creu cofnod o bryderon, cwynion a chanmoliaethau. Dylai'r ddogfen hon alluogi'r practis i nodi unrhyw anghenion dysgu o ganlyniad i broblemau a nodir. | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 15 | Dylid ail-drefnu'r ddwy ystafell yng nghefn yr adeilad er mwyn creu man ar wahân ar gyfer staff, ac ystafell ar wahân ar gyfer storio offer y practis. | | | |
| 15 | Dylid adolygu'r contract ar gyfer cael gwared ar wastraff er mwyn cael gwared ar bob categori o wastraff mewn ffordd ddiogel, gywir ac addas. | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (wedi'i brintio):** ..................................................................................................

**Teitl:** ..................................................................................................

**Llofnod:** ..................................................................................................

**Dyddiad:** ..................................................................................................

.................................